

Mileindra rhwng y Beddau

Pentref cymharol dawel ydyw Llannor, ac anodd credu rhywsut nad felly y bu erioed. Ond ar ôl chwilota, cefais wybodaeth am ambell i ddigwyddiad cyffrous a gymerodd le yno yn yr hen ddyddiau.

Fel yn y mwyafrif o bentrefi Llŷn, mae yn Llannor eglwys a gafodd ei sefydlu oddeutu'r chweched ganrif, a hi heb os nac oni bai yw mam y pentref. Goroedd lawer timestl a gwelodd newidiadau ym mhattrwm crefydd o dro i dro.

Rhodd o £104 i brynu bara

Perthynai iddi leygwyr haelionus, pobol fel Griffith Jones, pobdyd siwgr a adawodd gymunrodd i rai am ganu salmau yn Llannor; Elizabeth Jones, Llannerch Fawr, a adawodd £100 i dlodion y plwyf rywbryd yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg; John Evans, a adawodd rodd o £104 ar gyfer prynu bara gwenith i wragedd tlawd a fynychent wasanaeth bore Sul; Evan Hughes, a adawodd ddarn o dir a adwaenid fel Gardd Grach i'r eglwys, gyda'r amod fod yr eglwys i adeiladu tai rhad i'r tlodion arno: cafodd yr amod hwn ei anrhydeddu ac adeiladwyd nifer o dai, sef y *Barracks*.

Ar un cyfnod cynhaliwyd ysgol ddyddiol yn yr eglwys dan ofalaeth Thomas Williams, yr ysgolfeistr; ef hefyd oedd y clochydd, ond dim ond am y glochyddiaeth y câi dâl! Er hyn gadawodd swm sylweddol o arian ar ei ôl er mwyn prynu llyfrau i'r plant, rhodd a adwaenid fel Mr Williams *Charity*.

Dafad ddu yn eu plith

Er holl ddaioni'r rhai a enwir uchod gwelir cofnod am ddafad ddu yn eu plith. Cael ei hunan mewn dyfroedd dyfnion wnaeth Robert Williams, casglwr y dreth – a hynny am wario'r holl arian y bu wrthi'n eu casglu'n ddylf ar hyd y flwyddyn. Ceisiodd ef a'i fab ddianc o'r wlad, ond ymddengys bod braich hir y gyfraith wedi cael blaen arnynt ac fe'u taflwyd hwy i garchar Caernarfon!

Hawliodd y llywodraeth ail daliad o £163 oddi ar y werin dlawd, swm enfawr o ystyried eu bod eisoes wedi'i dalu. Erfyniodd y plwyfolion ar y trysorlys am dosturi, ond gan nad yw'r cofnod o'r hanes yn gyflawn mae'n anodd dweud a fu i'r Canghellor ymateb i'w cais. Daw'r cwpld canlynol i'r meddwl:

'Nid oes ysgolor heddyw'n fyw
All gyfrif lladron Eglwys Dduw.'

Rhabanian

Ar y dydd olaf o Fawrth, 1646, bu ysgarmes yng nghysgod yr hen eglwys pan fu i William Lloyd, John Lloyd a Henry Lloyd, Tŷ Newydd, Llannor, teulu o Brotestaniaid, ddod wyneb yn wyneb â Griffith Wynn, ei brod Dorothy (gwraig a ddimunai weld yr eglwys a'i chrefydd yn cael eu disodli), a'u meibion John, Robert a Charles, Pabyddion rhonc o Frynahunog.

Yn ôl yr hyn a groniclwyd gan Lys yr Ynadon pan ymddangosodd y Wynniaid ger ei fron, dywedwyd am Dorothy: *'that she hoped to wash her hands in the Protestants' hearts' blood that would not be converted to the Popish religion, and their heads cut off like crows' heads. She hoped ere ye be long to see the Protestants cut in pieces'*.

Roedd y Wynniaid, wrth gwrs, yn gefnogwyr i'r frenhiniaeth ac roedd



Eglwys Llannor.

ganddynt gynffonwyr, rhai yn filwyr arfog. Ymosodwyd ar y Lloydiaid ar lwybr y fynwent, a pha obaith oedd ganddynt o gael y llaw uchaf ar y gelyn? Clwyfwyd y tri o Dŷ Newydd yn yr ymladdfa, yn enwedig Henry, gan i Dorothy Wynn ei ddal gerfydd ei wallt a rhoi cyfle i John Wynn ei drywanu yn ei glun.

Tystiai John Williams, gweithiwr fferm un ar hugain oed o Lannor, iddo weld John Wynn o Frynahunog gyda chleddyf yn ei law yn ymosod ar Henry, ac iddo ei weld yn ddiweddarach yn ei glwyfau yn gorwedd ar un o'r beddau.

Elizabeth, gweddw 66 oed, a mam y bechgyn Lloyd oedd y nesaf i dystiolaethu. Yn ôl yr hyn a ddywedodd hi, roedd John Wynn ynghyd â Gwyddel (na wyddai pwy ydoedd) wedi nesáu at Henry, ei mab, yn chwifio arf mewn modd bygythiol.

Os yw dystiolaeth gŵr bonheddig 31 oed o'r enw James Cunningham i'w gredu, asgwrn y gynnen oedd fod John Lloyd wedi taflu carreg a tharo'r Capten William Edwards yn ei dalcen gyda'r canlyniad iddo gael dolur. Yn anffodus, does dim mwy o wybodaeth ar gael am ganlyniad y gwrandawriad.

Ficer yn dwyn y Methodistiaid gerbron y llys

Gŵr arall a fu yn y crochan berw oedd John Owen, brodor o Lanidloes, a gafodd ei benodi'n ficer Llannor ym Mehefin 1723, ac yna yn ganon yn 1742, serch yr anrhydedd mai ef oedd *'public enemy number one'* y Methodistiaid. Lawer tro y bu iddo eu dwyn gerbron y llys, nid yn unig ym Mhwlheli ond hefyd yn ei hen fro yn Lanidloes, am dorri Deddf 1664 a oedd yn ymwneud ag anghydfurfiaeth.

Ar fore Sul ym mis Chwefror 1741 ymwelodd Howell Harris ag eglwys Llannor i wrando ar bregeth John Owen. Buan y sylweddolodd Harris mai ef oedd y testun. Hyrddiwyd geiriau o gasineb tuag ato. Ar ei ffordd allan trwy berth y fynwent taflwyd cerrig ato gan ddilynwyr y person ond llwyddodd i ddianc yn ddianaf.

Roedd llawer yn casáu John Owen, a neb yn fwy na Dorothy Ellis, hen wraig o Brentreuchaf. Câl Dorothy, neu Dorti Ddu fel yr adwaenid hi, ei chyfrif yn wrach ac yn un a feddai'r ddawn i reibio. Beth bynnag am ei medrusrwydd fel dewines roedd un peth yn sicr: bu'n ddraenen yn ystlys y

rheithor hyd ddiwedd ei oes a hi, medd rhai, a fu yn gyfrwng iddo ymadael a'r fuchedd hon yn 57 mlwydd oed.

Yr hen ddewines yn mellithio'r ficer yn gyhoeddus

Cerddai Dorti yn unswydd i Lannor ar y Sul er mwyn aflonyddu ar y ficer yn ystod y gwasanaeth. Mellithiai ef yn gyhoeddus a bu iddi unwaith gael ei rhwymo wrth garreg yn y fynwent. Pan fu farw John Owen, medrodd y wrach, ryw ffordd neu'i gilydd, gael mynediad at ei arch, ac yn ôl yr hanes, gwasgodd ei drwyn. Dymuniad y parchedig oedd cael ei gladdu yn Lanidloes. Er bod cryn bellter rhwng Pentreuchaf a Lanidloes, dilynnodd Dorti ef a dangosodd ei ffeidd-dra tuag at yr ymadawedig drwy wneud ei busnes ar ei fedd!

Fel diweddglô i'r detholiad yma mae yn rhaid sôn yn frysioeg am lofruddiaeth a ddigwyddodd yn y pentref yn 1773, pan fu i Robert Huws, melinydd Llannor, lofruddio ei ffrind, llafurwr o'r enw John Roberts. Ymddengys bod y ddau gyfaill wedi bod yn cyd-ddiota yn un o'r tafarndai; roedd tair yn Llannor yr adeg hynny. Ar y ffordd adref datblygodd cweryl rhyngddynt ac aeth pethau o ddrwg i waeth gyda'r canlyniad i John Roberts gael ei ladd. Erlynwyd y melinydd yn Llys y Sasiwn Fawr gan Elinor, gweddw John, ond gan mai cweryl dan ddylanwad diod feddwol oedd yr achos, cafodd R. H. ei draed yn rhydd.

AR WERTH

The Welsh Vocabulary of the Bangor District: Fynes-Clinton;

'Adgof Uwch Anghof', sef Hen Lythyrau: Gol. Myrddin Fardd;

Arfon y Dyddiau Gynt: W. Gilbert Williams;

Llên a Llafar Môn: Gol. J. E. Caerwyn Williams;

Llên Gwerin Sir Gaernarfon: Myrddin Fardd.

Cysyllter â (01248) 361233

Iolo MSS. Arg 1888. Copi glân. Clawr gwreiddiol gydag ychydig o draul: £60.00;
Dosparth Edeyrn Dawod Aur a'r Pum Llyfr Kerddwriaeth. Welsh MSS Soc 1856. Copi glân. Rhwymiad Newydd: £50.00;
Red Book of Hergest - Poetry. Arg. Gwenogvryn Evans, 1911. Copi perffaith: £50.00.

Cysyllter ar (01248) 601007